

# Canllawiau diwrnod pleidleisio ym Mlaenau Gwent

---

## Popeth sydd angen i chi wybod am bleidleisio'n bersonol

Mae etholiadau mis Mai bron yma; dyma ganllawiau defnyddiol ar yr hyn i'w ddisgwyl os byddwch yn mynd i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio'n bersonol ddydd Iau 6 Mai.

## Ble mae fy ngorsaf bleidleisio?

Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio, byddwch yn derbyn cerdyn pleidleisio drwy'r post gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Bydd yn dweud wrthy ch ble mae eich gorsaf bleidleisio. Gwiriwch eich cerdyn pleidleisio cyn mynd rhag ofn fod eich gorsaf bleidleisio wedi newid ers y tro diwethaf i chi bleidleisio. Gallwch hefyd ganfod mwy am ble mae eich gorsaf bleidleisio ar [wheredoivote.co.uk](http://wheredoivote.co.uk), drwy roi eich cod post.

Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm. Gallwch bleidleisio unrhyw amser o fewn y cyfnod hwn. A pheidiwch anghofio, mae angen i chi fynd i'r orsaf bleidleisio a enwyd ar eich cerdyn pleidleisio; ni allwch fynd i un arall, er enghraifft, yn agos at lle'r ydych yn gweithio.

## A fydd mesurau diogelwch ar waith yn yr orsaf bleidleisio?

Bydd. Bydd gorsafoedd pleidleisio yn fannau diogel i bleidleisio. Gallwch ddisgwyl llawer o'r mesurau yr ydych wedi dod yn gyfarwydd â nhw mewn siopau neu ofodau dan do eraill, tebyg i gadw pellter cymdeithasol neu hylif diheintio dwylo.

## A oes angen i mi fynd ag unrhyw beth gyda fi?

Gallwch helpu i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel drwy:

- wisgo gorchudd wyneb
- mynd â'ch pen neu bensel eich hun
- glanhau eich dwylo pan fyddwch yn mynd i mewn a gadael yr orsaf bleidleisio
- cadw pellter diogel

## A fyddaf yn dal i fedru pleidleisio os ydw i yn datblygu symptomau Covid?

Os ydych yn mynd yn wael neu'n hunanynysu fel canlyniad i Covid-19 ychydig cyn y diwrnod pleidleisio, neu ar y diwrnod ei hun, nid yw'n rhaid i chi gollu eich pleidlais.

Byddwch yn dal i fedru gwneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy tan 5pm ar ddiwrnod yr etholiad, felly gall rhywun yr ydych yn ymddiried ynddynt bleidleisio ar eich rhan. Gallwch drefnu hyn drwy siarad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 01495 355086/88.

## Beth os ydw i'n anghofio fy ngorchudd wyneb neu fynd â ben neu bensel gyda fi?

Dylech fynd â'ch pen neu bensel eich hun er mwyn lleihau cysylltiad. Dylech hefyd wisgo gorchudd wyneb fel y gallwch eich cadw eich hun, ac eraill, yn ddiogel ar ddiwrnod yr etholiad.

Os anghofiwch fynd â'r pethau yma gyda chi, bydd gan staff gorsafoedd pleidleisio orchuddion wyneb a phensiliau glân ar gael i chi. Ni chewch eich atal rhag mynd mewn i'r orsaf bleidleisio os ydych yn anghofio'r pethau yma

## Pa mor hir fydd yn ei gymryd?

Dim ond ychydig funudau a ddylai gymryd i bleidleisio. Rydym wedi rhoi trefniadau yn eu lle i'ch help i gadw pellter cymdeithasol o fewn yr orsaf bleidleisio. Mae hyn yn golygu y gall fod yn rhaid i chi giwio i fynd mewn. Os gofynnir i chi giwio, dylech fod yn amyneddgar a byddwn yn gweithio i'ch galluogi i bleidleisio cyn gynted ag sydd modd.

Os ydych yn dal mewn ciw i bleidleisio am 10pm, gallwch bleidleisio cyn i'r pleidleisio gau.

## Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd yno?

Bydd staff yr orsaf bleidleisio yno i'ch cyfarch a'ch gwahodd i mewn cyn gynted â bod y blychau yn agor am 7am. Bydd marciau ar y llawr i ddangos pa ffordd i fynd a'ch helpu i gadw pellter cymdeithasol. Bydd staff hefyd yn dangos y mesurau iechyd cyhoeddus y dylech eu dilyn tra'ch bod yn yr orsaf bleidleisio.

Bydd y staff yn rhoi papur pleidleisio yn rhestru pwy y gallwch bleidleisio iddynt. Yn dibynnu ar yr etholiadau yn eich ardal, gallwch fod â mwy nag un papur pleidleisio i'w lenwi.

Ewch â'ch papur pleidleisio i fwth pleidleisio. Bydd silff i chi bwysu ac ysgrifennu arni.

Defnyddiwch eich pen neu eich bensel eich hun, neu os gwnaethoch anghofio dod ag un, gofynnwch i'r clerod pleidleisio am un lân.

## Sut mae llenwi'r papur pleidleisio?

Cymerwch eich amser: darllenwch y papur pleidleisio yn ofalus a'i lenwi yn ôl y cyfarwyddiadau.

Peidiwch ag ysgrifennu dim byd arall ar y papur neu efallai na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

Peidiwch â phoeni os ydych yn gwneud camgymeriad – cyhyd nag ydych eisoes wedi ei roi yn y blwch pleidleisio, dywedwch wrth staff yr orsaf bleidleisio a gallant roi papur pleidleisio arall i chi..

## Beth ydw i'n wneud gyda'r papur pleidleisio wedyn?

Unwaith y byddwch wedi gorffen, dylech blygu eich papur pleidleisio yn ei hanner a'i roi yn y blwch pleidleisio. Bydd hyn ar y ddesg wrth ochr y clerod pleidleisio.

## Beth os ydw i angen help?

Gofynnwch i'r staff yn yr orsaf bleidleisio os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, neu angen unrhyw help – byddant yn hapus i'ch cynorthwyo.

## Beth os oes gen i broblemau gyda mynediad?

Os oes gennych anabledd sy'n golygu na allwch lenwi'r papur pleidleisio eich hun, gallwch ofyn i'r swyddog yng ngofal yr orsaf bleidleisio i farcio'r papur pleidleisio i chi, neu gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch helpu.

Os oes gennych nam ar eich golwg, gallwch ofyn am bapur pleidleisio print bras i gyfeirio ato pan fyddwch yn bwrw eich pleidlais, neu ddyfais pleidleisio cyffyrddol arbennig a gynlluniwyd fel y gallwch farcio eich papur pleidleisio ar eich pen eich hun.

## A ddylwn i ddweud wrth unrhyw un i bwy y pleidleisiais?

Chi a dim ond chi biau'ch pleidlais, nid oes angen i chi ddweud wrth unrhyw un sut y gwnaethoch bleidleisio.

Weithiau cynhelir pleidleisiau gadael lle mae pobl – fel arfer gwmnïau preifat yn gweithio i bapurau newydd neu gwmnïau darlledu – yn gofyn i bleidleiswyr sy'n gadael yr orsaf bleidleisio i bwy y gwnaethant bleidleisio er mwyn eu helpu i ddarogan beth fydd y canlyniad. Nid yw'n rhaid i chi ymateb i'w cwestiynau os na ddymunwch wneud hynny.

## A fedraf dynnu hunlun neu luniau arall pan fyddaf yn pleidleisio?

Ni ddylech dynnu lluniau tu mewn i'r orsaf bleidleisio gan y gallai amharu ar gyfrinachedd y pleidlais.

Mae croeso i chi dynnu lluniau tu allan i'r orsaf bleidleisio a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol i annog eich ffrindiau a'ch perthnasau i bleidleisio.

## A allaf fynd â fy ffrind / partner / plant / rhieni / ci gyda fi?

Gallwch fynd â phwy bynnag yr hoffech draw i'r orsaf bleidleisio ond dim ond y rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio honno all fynd i mewn. Ni ddylai oedolyn arall fynd gyda chi i'r bwth pleidleisio os nad oes gennych anabledd. Os oes gennych anabledd gallwch fynd â rhywun i mewn i'ch helpu neu ofyn i un o staff yr orsaf bleidleisio am eu help.

Mae croeso i blant mewn gorsafoedd pleidleisio. Er na chaniateir i'ch plentyn farcio'r papur pleidleisio drosoch, gallwch fynd â nhw i fewn i'r orsaf bleidleisio gyda chi.

Fel arfer ni chaiff anifeiliaid, ar wahân i gŵn cymorth, mynd tu mewn i orsafoedd pleidleisio, felly bydd angen eu clymu tu allan os ydych yn penderfynu mynd ag anifeiliaid gyda chi.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Tîm Cofrestru Etholiadol**

Ffôn: 01495 355086/88

E-bost: [electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk)